# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(111)

**Croesawodd y Llywydd ddirprwyaeth o Senedd Trinidad a Tobago, a oedd yn yr Oriel Gyhoeddus**

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 14 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 2, 6 a 9 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 3.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.22

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o Gynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Interim

Dechreuodd yr eitem am 14.39

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Gwneud gwahaniaeth: Rôl amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd o ran mynd i'r afael â thlodi plant

Dechreuodd yr eitem am 15.01

### 5. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Twf a Seilwaith - Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu

Dechreuodd yr eitem am 15.33

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5124 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy’n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu o dan adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen yn y Bil Twf a Seilwaith, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Rhagfyr 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

## 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – y Bil Twf a Seilwaith – Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Dechreuodd yr eitem am 15.42

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5125 Edwina Hart (Gŵyr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Twf a Seilwaith sy’n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

## 7. Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 15.50

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5158 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013 yn

cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2012.

**8. Dadl: Ymgyrch Bwyta'n Gall Newid am Oes**

Dechreuodd yr eitem am 15.54

**NDM5159 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Bwyta'n Gall' fel rhan o ymgyrch farchnata gymdeithasol Newid am Oes i annog teuluoedd yng Nghymru i ddewis a choginio prydau bwyd sy'n isel mewn braster, siwgr a halen ac yn cynnwys mwy o ffrwythau a llysiau.

2. Yn cydnabod bod gan yr ymgyrch rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o amrywiaeth o fentrau cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, y GIG a phartneriaid eraill i gyfrannu at leihau lefelau afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1– Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod pump o'r 10 ardal awdurdod lleol â'r lefelau isaf o iechyd 'da' yng Nghymru a Lloegr i'w cael yng Nghymoedd De Cymru, ac yn credu y bydd rhagor o ymwybyddiaeth am fwyta'n iachach yn helpu i wella hyn.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod llawer o deuluoedd nad ydynt yn gallu cael gafael ar ystod lawn o fwydydd iach ac yn gresynu bod nifer cynyddol yn ddibynnol ar fanciau bwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 11 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a deiet gwael fel rhan o'i hymgyrch.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio cynllun cynhwysfawr ar gyfer diogelu'r cyflenwad bwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod deiet gwael wedi cyfrannu at y ffaith bod 57% o oedolion a 35% o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 9 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod pump awdurdod lleol yng Nghymru ymysg y deg awdurdod 'lleiaf iach' yn y Deyrnas Unedig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r heriau deietegol yn yr ardaloedd hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 9 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r dull gorfiwrocrataidd o weithredu yng nghyswllt Blas am Oes sy'n ychwanegu at gost darparu bwyd iach mewn ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 34 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ategu'r ymgyrch hon drwy sicrhau bod plant yn cael dewis o fwydydd iach yn yr ysgol gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5159 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod pump o'r 10 ardal awdurdod lleol â'r lefelau isaf o iechyd 'da' yng Nghymru a Lloegr i'w cael yng Nghymoedd De Cymru, ac yn credu y bydd rhagor o ymwybyddiaeth am fwyta'n iachach yn helpu i wella hyn.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Bwyta'n Gall' fel rhan o ymgyrch farchnata gymdeithasol Newid am Oes i annog teuluoedd yng Nghymru i ddewis a choginio prydau bwyd sy'n isel mewn braster, siwgr a halen ac yn cynnwys mwy o ffrwythau a llysiau.

3. Yn nodi bod llawer o deuluoedd nad ydynt yn gallu cael gafael ar ystod lawn o fwydydd iach ac yn gresynu bod nifer cynyddol yn ddibynnol ar fanciau bwyd.

4. Yn cydnabod bod gan yr ymgyrch rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o amrywiaeth o fentrau cydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, y GIG a phartneriaid eraill i gyfrannu at leihau lefelau afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a deiet gwael fel rhan o'i hymgyrch.

6. Yn gresynu bod deiet gwael wedi cyfrannu at y ffaith bod 57% o oedolion a 35% o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew.

7. Yn gresynu bod pump awdurdod lleol yng Nghymru ymysg y deg awdurdod 'lleiaf iach' yn y Deyrnas Unedig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r heriau deietegol yn yr ardaloedd hyn.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ategu'r ymgyrch hon drwy sicrhau bod plant yn cael dewis o fwydydd iach yn yr ysgol gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 16.48

Daeth y cyfarfod i ben am 16:51

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 6 Chwefror 2013**